



# Manffesto Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru ar gyfer Etholiadau Senedd Cymru 2021

## Cael y GIG yn ôl i weithredu yn unol â'r arfer

- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyflenwad digonol o feddygon teulu a gwelyau ysbyty, clinigau, profion fflebotomi, ac ati, pelydr-X a sganiau, yn cael eu cadw i alluogi cleifion sy'n derbyn triniaethau i gleifion allanol i barhau i wneud hynny a chaniatáu ar gyfer atgyfeiriadau newydd hefyd. Mae angen adfer gwasanaethau podiatreg.

Dywedodd llawer o bobl hŷn wrthym fod angen iddynt gael sicrwydd ynglŷn â'r mesurau a ddefnyddir i ddiogelu yn erbyn trosglwyddo Covid-19. Mae eu hyder yn ymgysylltu â'r byd y tu allan wedi lleihau. Mae llawer ohonynt yn pryderu ynglŷn â chael mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill, siopa, arian parod, ymarfer corff, llyfrgelloedd ac adloniant.

- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddelio â'r rhwystrau sy'n atal mynediad at y gwasanaethau hynny, fel diffyg cludiant cyhoeddus, toiledau cyhoeddus a ffynonellau gwybodaeth clir sydd ar gael yn hawdd.
- Dylid cynnal yr arfer o roi presgripsiynau am ddim i bawb yng Nghymru.

## GIG Cymru a Gofal Cymdeithasol

Rydym ni eisiau addewid o ofal hirdymor diogel ar gyfer yr holl bobl fregus, oedranus ac anabl.

## Gwella o Covid-19

- Mae gobaith nawr y bydd brechlyn ar gael. Mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru eisiau i'r rhaglen frechu fod yn seiliedig ar ddechrau â'r bobl sydd fwyaf agored i niwed, h.y. gweithwyr allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, wedi'i dilyn gan raglen asesu risg.

## Tlodi Tanwydd, Ynni, Tai a'r Amgylchedd

- Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddechrau rhaglen fawr 'ôl-osod' ynni mewn cartrefi. Byddai rhaglen o'r fath yn cynnig manteision ehangach i anghydraddoldeb incwm, iechyd cyhoeddus a newid hinsawdd. Byddai hefyd yn mynd i'r afael â phroblem tlodi tanwydd sy'n wynebu llawer o bobl hŷn yng Nghymru.

## Datblygu 'Un system iechyd a gofal ddi-dor i Gymru'.

Mae pandemig 19 wedi amlygu'r diffyg gwydnwch yn ein System Iechyd a Gofal. Mae hefyd wedi amlygu'r ffaith mai ardaloedd difreintiedig sydd wedi dioddef waethaf.

- Mae cysylltiad gwael wedi bodoli'n rhy hir rhwng Gofal Cymdeithasol a'r GIG. Mae angen newid hyn.

Yn eu pamffled "Goodbye Cinderella", mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru yn dadlau'n gryf dros gael system lechyd a Gofal Cymdeithasol integredig genedlaethol yn y Deyrnas Unedig

- Mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddechrau proses, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol, i alluogi datblygu system lechyd a Gofal Cymdeithasol Genedlaethol integredig yng Nghymru. Dylai fod cynllun o ran graddfa amser, gyda dangosyddion cerrig milltir allweddol, ynglŷn â sut i symud tuag at yr amcan hwnnw.
- Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gael trafodaethau â Thrysorlys y Deyrnas Unedig i chwilio am ffyrdd o sicrhau ffurf briodol o gyllido ar gyfer system lechyd a Gofal Cymdeithasol integredig.

## Tlodi Tanwydd, Ynni, Tai a'r Amgylchedd

- Dylid sicrhau mai ôl-osod mewn cartrefi, fel y cynigir gan y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg, gosod inswleiddio, pypiau gwres a foltag solar pennau tai, yw'r brif elfen mewn economi werdd newydd i Gymru.
- Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gael trafodaethau â Thrysorlys y Deyrnas Unedig i chwilio am ffyrdd o sicrhau ffurf briodol o gyllido ar gyfer Economi Werdd newydd.
- Yn y cyfamser, mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru yn galw am raglen ehangach o welliannau i gartrefi gan Lywodraeth Cymru, wedi'i hariannu gan grantiau, ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi sy'n aneffeithlon o ran ynni ledled Cymru.

## Mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru hefyd yn cefnogi Pensiynau Teilwng gan y Wladwriaeth

Dylid gosod cyfradd pensiwn sylfaenol y wladwriaeth ar 70% o'r cyflog byw (cyfradd y tu allan i Lundain) ac uwchlaw'r lefel tlodi swyddogol. Ar hyn o bryd, mae hyn tua £220 yr wythnos yn 2020. Dylid talu hyn i'r holl ddynion a menywod, ni waeth beth yw eu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Bob blwyddyn, dylid codi pensiwn y wladwriaeth (sylfaenol ac ail, fel Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion SERPS) yn unol â'r enillion gorau, y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, y Mynegai Prisiau Manwerthu neu 2.5%.

## Budd-daliadau Cyffredinol Pensiynwyr

Mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru yn cefnogi cynnal budd-daliadau cyffredinol pensiynwyr, fel teithio am ddim ar fysiau, a £500 o lwfans tanwydd yn y gaef.

## Trwyddedau Teledu Am Ddim i bobl dros 75 oed

Yn ystod y cyfnod clo, fe wnaeth Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru, ynghyd â sefydliadau eraill pobl hŷn, helpu ag arolwg Age Cymru o brofiad pobl hŷn. Canfu fod 80% o bobl hŷn yng Nghymru yn dibynnu ar y gwasanaeth newyddion cyhoeddus ar y teledu i gael y newyddion diweddaraf.

Ni all fod yn iawn fod rhaid i bobl dros 75 oed dalu £157.50 y flwyddyn am hynny nawr – mae hynny fel cael dirwy am fod dros 75 oed.

## Cynhwysiant Digidol

Mae angen ystyried mynediad digidol nawr fel hawl ac fel cyfleustod hanfodol yn yr un ffordd yr ydym yn ystyried yr angen am nwy a thrydan.

- Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i ddileu'r rhwystrau sy'n atal pobl hŷn rhag mynd ar-lein.
- Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i fyrrdau iechyd ac Awdurdodau Lleol fagu hyder digidol i bobl hŷn gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus digidol.
- I'r bobl hŷn hynny nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar-lein, neu nad ydynt yn dymuno mynd ar-lein, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod opsiynau nad ydynt yn ddigidol yn parhau i fod ar gael, ac yn hygyrch.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru greu Cymru lle mae cyfranogi'n llawn yn eu bywyd cymunedol a theuluol o fewn cyrraedd yr holl bobl hŷn, a bod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi. Rhaid i ni gael cymunedau sydd o blaid pobl hŷn.

## Cludiant

- Dylid parhau â'r cynllun pàs bws i bobl sy'n 60 oed neu'n hŷn y gellir ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a dylid ei ddatblygu i fod yn Bâs Teithio Cymru i'w ddefnyddio ar bob math o gludiant. Dylid ymestyn y cynllun i grwpiau oedran eraill, fel gweithwyr ifanc sy'n dilyn prentisiaethau.

## Hawliau Pobl Hŷn

Mae'r Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol yn sefyll dros degwch wrth bontio'r cenedlaethau. Dylai fod gan bob dyn a menyw hawl i urddas a diogelwch wedi iddynt ymddeol.

- Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig o ran gwneud yn siŵr fod ein hawliau a'n hurddas yn cael eu cynnal. Mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru eisiau ymrwymiad gan bob Plaid Wleidyddol y byddant yn cadw ac yn cefnogi rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru.

**For further information please contact:**

NPC Wales  
Ground Floor, Mariners House  
Trident Court, East Moors Road,  
Cardiff CF24 5TD

[www.npcwales.org](http://www.npcwales.org)